


Teitl Swydd:

# Linc Cymunedol Môn - Cydlynydd Asedau Lleol

Yn atebol i:

**Prif Swyddog, Medrwn Môn**

www.medrwnmon.org



Cydlynydd Asedau Lleol

# Swydd Ddisgrifiad:

**Cyflog:** SCP PT 19 £31,067 (Mae'r swydd hon wedi'i ariannu hyd at 31 Mawrth 2028)

**Oriau:** 15 awr y wythnos. 25 diwrnod o wyliau blynyddol bob blwyddyn, a gwyliau banc, a 4 diwrnod ychwanegol ar gyfer y cyfnod Nadolig (pro rata i gontract 15 awr)



**Pensiwn:** Bydd y swydd yn denu cyfraniad o 14% o gyflog blynyddol i gynllun pensiwn cymeradwy Medrwn Môn.

## Prif bwrpas y rôl:

- Cyflwyno gwasanaeth Presgreibio Cymdeithasol Linc Cymunedol Môn drwy ddatblygu cyfleoedd a rhwydweithiau i bobl fyw'n hirach ac yn fwy annibynnol yn eu cymuned.

- Cynnal system rheoli cofnodion Presgreibio Cymdeithasol Elemental.

- Darparu gwybodaeth am bresgreibio cymdeithasol i weithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol.

## Perthnasau allweddol:

Gan adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, bydd y rôl yn creu, yn rheoli ac yn cynnal perthnasoedd â'r rhanddeiliaid canlynol i godi proffil y Sefydliad, ei weledigaeth a'i genhadaeth

- Sector gwirfoddol: sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol, Cynghreiriau Cymunedol, gwirfoddolwyr, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru

- Sector cyhoeddus: Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, BIPBC, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

# Cydlynydd Asedau Lleol




## Prif Atebolrwydd::









- Derbyn atgyfeiriadau a wneir i wasanaeth Linc Cymunedol Môn a darparu cefnogaeth un-i-un i unigolion - eu cysylltu â grwpiau lleol a'u cefnogi i nodi a gweithio tuag at nodau lles.

- Lle bo'n berthnasol, cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at sefydliadau trydydd sector perthnasol a all eu cefnogi gyda'u hanghenion

- Gweithio gyda thîm Linc Cymunedol Môn i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect trwy drefnu a chynnal digwyddiadau, a chefnogi a mynychu digwyddiadau a gynhelir gan ein partneriaid

- Monitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaeth ac ystadegau gan ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn fisol, yn chwarterol ac yn flynyddol

- Cyflwyno dadansoddiad ystadegol meintiol ac ansoddol o ddata a gwybodaeth Linc Cymunedol Môn. Coladu, dadansoddi ac adrodd ar ystadegau gwasanaeth yn rheolaidd i lywio cynllunio a monitro strategol a gweithredol

- Gweithio gyda thîm Linc i baratoi deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y prosiect, gan gynnwys y llyfrynnau astudiaethau achos diweddaraf

- Mynychu a chwarae rhan weithredol mewn grwpiau gwaith mewnol yn trafod Presgreibio Cymdeithasol.

- Dyletswyddau gweinyddol a swyddfa cyffredinol

## Rheoli Cynnydd:

- Cyfrannu at ein cronfa ddata Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid
- Cynnal Cyfeiriadur Trydydd Sector Medrwn Môn
- Coladu a monitro cynrychiolaeth y sector yn erbyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru
- Cyfrannu at grwpiau gwaith Medrwn Môn, ac at grwpiau gwaith ar y cyd o fewn y Sefydliad lle bo'n briodol
- Sicrhau bod adroddiadau'n cael eu cwblhau o fewn gradddfeydd amser a'u gosod ar agendâu priodol
- Cyflwyno canfyddiadau a chynnydd yn erbyn targedau i bartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol pan fo angen









*Nid yw'r dyletswyddau yn y disgrifiad swydd hwn yn hollgynhwysfawr a gellir eu newid ar unrhyw adeg i adlewyrchu anghenion newidiol y sefydliad.*


*Mae Medrwn Môn yn defnyddio dull 'Agile' i ddarparu ein gwasanaethau. Mae 'Ystwyth' yn ddull rheoli prosiect sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth ymatebol, drwy gydol ei gylch bywyd. Rydym yn annog staff i gymryd rhan yn y ffordd hon o weithio yn rheolaidd. Er mwyn cyflawni'r broses, rydym yn gwahodd staff i ymuno â thimau hunan-drefnu (a elwir yn Scrums), i ddod at ei gilydd mewn graddfeydd amser byr (a elwir yn 'Sprints') i gwblhau'r darn o waith trwy ddyrannu rolau a thasgau rhyngddynt. Un o nodau dull ystwyth yw rhyddhau buddion drwy gydol y broses yn hytrach nag ar y diwedd yn unig.*

*Fel Sefydliad mae Medrwn Môn yn hyrwyddo Gweithle Egnïol. Rydym yn annog ein staff i nodi a mabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n ceisio gwella iechyd, lles a gweithgaredd corfforol yn y gweithle. Gellir dod o hyd i rai enghreifftiau da trwy ddilyn y ddolen hon: https://toolkit.greatersport.co.uk/getting-started/*

# Manyleb Bersonol

**Yr ymgeisydd delfrydol:**

- Bydd ganddynt ddealltwriaeth o rôl y sector gwirfoddol mewn iechyd, lles a gofal cymdeithasol
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ag unigolion a sefydliadau ar lefelau amrywiol, tra'n cynnal ffiniau proffesiynol clir
- Bydd ag ymagwedd gadarnhaol a chreadigol at fynd i'r afael â thasgau
- Byddwch yn hyderus wrth ymgysylltu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg



**Gwybodaeth a dealltwriaeth:**

**Hanfodol**

- Profiad o weithio mewn amgylchedd swyddfa prysur
- Profiad o gadw data a chofnodion cywir a chreu astudiaethau achos ac adroddiadau sy'n dangos effaith y prosiect
- Profiad o hyrwyddo prosiectau, mynychu cyfarfodydd a chyflwyno gwybodaeth mewn nifer o fformatau difyr
- Profiad o sefydlu a chynnal perthnasodd effeithiol gyda staff ac asiantaethau partner
- Profiad o weithio mewn grwpiau gwaith bychain a yrrir gan dasgau
- Safonau uchel o onestrwydd a yrrir gan werthoedd a safonau proffesiynol/moesegol
- Rheoli llwyfan CRM



